# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 22 Ionawr 2024

## SL(6)438 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 ("Gorchymyn 2017"). Mae Gorchymyn 2017 yn darparu bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol at ddiben Rhan 1 o Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer ychwanegu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ('y Comisiwn') at y rhestr o gynhyrchwyr ystadegau swyddogol yng Nghymru. Bydd y Comisiwn, a sefydlwyd fel corff corfforaethol gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn gyfrifol am strategaeth, cyllid a goruchwylio'r sectorau a ganlyn yng Nghymru:

- addysg bellach, gan gynnwys colegau a dosbarthiadau chwech ysgolion;
- addysg uwch, gan gynnwys ymchwil ac arloesi;
- addysg oedolion a dysgu oedolion yn y gymuned; a
- phrentisiaethau.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007

**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi

**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi

**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2024